**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-HB-1207-20

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Ebrill 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010"), sy'n gosod dyletswydd ar bob manwerthwr i godi isafswm o 5c am bob bag siopa untro newydd a werthir i alluogi cludo nwyddau o'u siopau, gan gynnwys bagiau a ddefnyddir i ddanfon nwyddau i gartrefi neu i gasglu nwyddau. Mae bagiau a ddefnyddir at rai dibenion wedi'u heithrio o'r angen i godi tâl.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2010 trwy fewnosod eithriad ychwanegol yn Atodlen 1, Paragraff 1 i eithrio bagiau siopa untro a ddefnyddir at ddibenion cludo nwyddau a brynwyd fel rhan o wasanaeth dosbarthu neu gasglu nwyddau groser yn unig.

Gwnaed a gosodwyd Rheoliadau 2020 cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg i staff cludo cartref a chwsmeriaid eraill o ledaenu neu ddal COVID-19 yn ystod danfoniadau i gartrefi. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 9 Ebrill 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd